# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Cyfri fesul dau** |
| Adnoddau: | • Llyfr 'Cymeriadau Difyr: Cyfri fesul dau'.<br>• Numicon.<br>• Cardiau rhifau hyd at 20.<br>• Hwpiau mawr.<br>• Llinellau rhif unigol hyd at 20 wedi eu lamineiddio.<br><br>**<u>Adnodd digidol:</u>**<br>Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **<u>Cyflwyniad:</u>**<br>Darllen y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Cyfri Fesul Dau'.<br>Edrych ar bob rhif o'r gyfres 'Cymeriadau Difyr'. Trafod eu henwau a'u gwerth.<br>Astudio'r llinell rif (hyd at 20). Gofyn 'Pa rif sy'n dod ar ôl 5?' ayyb. Yna gofyn 'Pa rif sydd os ydyn ni'n neidio ymlaen dau?' Gwneud hyn gyda nifer o rifau gwahanol. Dangos y naid ar y llinell rif ddigidol.<br>Tynnu sylw at y cysylltiad yn y patrwm rhifau gydag odrifau ac eilrifau.<br><br>**<u>Cam 2: Ymlaen 2</u>**<br>Llinell rif unigol/mewn parau i'r dysgwyr. Gofyn iddynt neidio ymlaen dau o amrywiol rifau, e.e. 'Rydyn ni'n dechrau ar 3. Pa rifau sy'n dod nesaf wrth i ni gyfri ymlaen dau bob tro?'<br><br>**<u>Cam 3: Llinellau rhif</u>**<br>Y dysgwyr i ddefnyddio llinellau rhif wedi eu lamineiddio i ddynodi'r naid gyda pheniau ffelt bwrdd gwyn wrth gyfri ymlaen dau o wahanol rifau. Yna dweud y patrwm o rifau allan yn uchel ar y cyd.<br><br>**<u>Cam 4: Numicon</u>**<br>Y dysgwyr i ddangos y patrwm rhif drwy adio dau at amrywiol rifau numicon, neu drwy osod rhes o rifau numicon sy'n cynyddu fesul dau.<br><br>**<u>Cam 5: Rhifau (twba tuff</u>**)<br>Gosod set o lawer o amrywiol rifau o 0 i 20 yn y twba. Rhoi llinellau rhif yno hefyd.<br>Gofyn i'r dysgwyr ddangos patrwm cyfri ymlaen mewn dau drwy osod y rhifau mewn trefn. Gallan nhw greu sawl gwahanol ddilyniant o rifau i ddangos cyfri ymlaen fesul dau.<br><br>**<u>Cam 6: Ardal allanol - hwpiau</u>**<br>Yr athro/ymarferydd i ddweud enw rhif, yna'r dysgwyr i neidio drwy un hŵp ar y tro gan ddweud enwau'r patrwm o rifau sy'n dod nesaf allan yn uchel. Rhaid dweud un rhif i gyfateb i bob naid. |



# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Cwestiynu: | • Pa rif sy'n dod nesaf?<br>• Fedri di gyfri fesul dau o'r rhif _____?<br>• Fedri di ddangos y patrwm ar y llinell rif? |
| Beth nesaf? | Cyfri fesul dau gyda rhifau sydd dros 20. |



Peniarth .cymru

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales